

Cofion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Mae Menna Owen (Cefn Meiriadog) a Doreen Evans (Tanyfron) yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd a Harold Lloyd (Tanyfron) yn Ysbyty Bae Colwyn. Da deall bod Aled Roberts (Henllan) a Bob Edwards (Groes) wedi cael dod adref. Bu Rhiannon Evans (Llansannan) yn yr ysbyty am rai dyddiau yr wythnos diwethaf hefyd. Mae'n dda clywed ei bod hithau'n well erbyn hyn. Mae eraill o'n plith yn mynd trwy brofiadau anodd bywyd a chyflwynwn hwy i ofal tyner Duw gan weddio y cânt oll adnabod Ei heddwch a'i dangnefedd.
- Llongyfarchiadau i Ceridwen Evans (Llansannan) ar ddathlu pen-blwydd arbennig yr wythnos ddiwethaf!

Oedfaon Arbennig

Nos Sul nesa disgwyliwn y Parch. John Robinson i agor cyfres newydd o bregethau i'n harwain at y Nadolig. Enwau Crist ym mhroffwydoliaethau'r Hen Destament fydd y cynnwys gan gychwyn hefo Eseia 9. Rydym yn bwriadu cael cyfle hefyd i wrando ar beth o 'Meseia' Handel yn ystod yr oedfa a chael unawd gan John. Dewch i ymuno yn y mawl i'r 'bachgen a anwyd' yn Dywysog Tangnefedd!

Bwriadwn ddathlu Sul y Beibl yn Oedfa'r Fro ar y 4ydd o Ragfyr ac fe fyddwn yn **'Dathlu trwy Ddosbarthu!'** Disgwyliwn gynrychiolaeth o bob eglwys i ddod i ddarllen ychydig o gyhoeddiad diweddar y Feibl Gymdeithas o Efengyl Marc ac yna mynd â chopiau yn ôl i'r eglwysi i'w dosbarthu i aelodau a chyfeillion cyn y Nadolig. Bydd Aneurin yn sôn am hyn yn yr oedfaon heddiw a'r wythnos nesa. Gweddiwn am fendith Duw ar y rhannu a'r darllen.

I ddod

- **Cyflwyniad Dramatig 'YR ORDEINIAD CYNTAF YN Y BALA 1811'** gan Gwmni Capel Tegid a'r Cylch, nos Sul Tachwedd 27ain yng Nghapel Mawr, Dinbych am 7.30. Mynediad £3 wrth y drws.
- **Cyfarfod i Flaenoriaid yr Ofalaeth** nos Lun, Tachwedd 28ain yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- Cyfarfod o **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30 nos Lun, Tachwedd 28ain gyda'r *'Snappy Pastor'*. £3, yn cynnwys bwffe. Croeso i'r dynion hefyd.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20^{fed} Tachwedd 2011

Dyddiadau i'r dyddiadur!
Manylion dwy oedfa arbennig ar
gefn y daflen.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Cefais gêm o ddarts neithiwr am y tro cynta ers blynyddoedd! Roedd hi'n noson gymdeithasol y grwpiau Adnabod yn Heulfryn a Llund y lle o bwrdinau, paneidiau a sgysia. Yn yr ystafell gefn, roedd y bwrdd darts wedi ei osod yn ei briod le uwchben yr hen le tân ac roedd hi'n syndod pwy oedd yn rhyw ymhel yno yn hytrach nag i'r parlwr lle roedd Eryl yn holi am wragedd Abraham!

Gêm o 501 - a Mair Bryn Golau (cyn-weithiwr ym Manc y Midland) oedd yn gwneud y syms – diolch am hynny! Roedd y sgoriau mor amrywiol o ran eu cyrhaeddiadau o 7 ar ambell i dafliad (ia – hefo 3 dart!) i 101 hefo taflriad arall – ac roedd angen rhywun da iawn hefo syms i gyfrif i lawr – a rhywun hefo digon o amynedd i ddal ati tan ddiwedd y gêm a'r *'double one'* anorfod !!

Rhyfedd fel mae hen sgiliau yn dod yn ôl i'r wyneb ar ôl cyfnod maith o orffwys. 'Fatha reidio beic. Rhai pethau wedi eu harfer cymaint nes eu bod yn rhan ohonom rhywsut. Doeddwn i ddim yn ddigon da i ennill y gêm ond o leiaf roeddwn yn dal i allu taro'r bwrdd yn lled gyson. Roedd gwneud y syms yn fater tebyg – dipyn yn rhydlyd heb gyfrifiannell – ond yn gallu yn y pen draw! Gweddiwn heddiw dros y rhai sy'n gorfod dysgu hen sgiliau o'r newydd – rhai sy'n dysgu cerdded eto, rhai eraill sy'n dysgu defnyddio lleferydd yn dilyn stroc a'r rhai sy'n gorfod dysgu ffordd newydd o fyw oherwydd amrywiol amgylchiadau. Llawenhawn gyda phob un sy'n symud gam wrth gam ymlaen a gweddiwn am nerth yr Arglwydd iddynt a'u teuluoedd.

Ond i fynd yn ôl at wragedd Abraham! Cwestiwn astrus Eryl oedd 'Pa sawl gwraig oedd gan Abraham?' Sarah yn ddigon adnabyddus – mam Isaac wrth gwrs, a Hagar yr ordderch-wraig, a'i mab hithau, Ishmael y cyfeirir atynt gan Paul pan y mae'n sôn am yr etifeddiaeth wahanol sydd i ni yn yr Efengyl (Galatiaid 4 a 5). Ond roedd Eryl yn benderfynol bod gwraig arall a dim un ohonom ni (bregethwyr ac arweinwyr!) yn gallu rhoi ateb. "Cychwyn hefo 'C' " awgrymodd Eryl yn obeithiol, ond dim ateb yn dod. Yr ateb? Nôl Beibl a throi i benodau canol Llyfr Genesis. Yno, cael yr ateb – Cetura! (Gen. 25). Gordderch-wraig arall ddaru genhedlu chwech o feibion cyn iddynt gael eu anrhegu a'u hanfon i'r dwyrain. Gwên fawr ar wyneb Eryl a gwên fwy fyth ar wyneb Nesta!!

Oes, mae 'na lawer o bethau nad ydym yn gwybod yr ateb iddynt – ond mae atebion Duw yn glir yn y Beibl. Efallai ei bod hi'n amser i ni gyd adfer yr hen sgiliau o ddarllen y Beibl!

Croeso i oedfaon y dydd a bydded i'r Arglwydd Iesu gael ei ogoneddu yn ein plith heddiw. Ef sy'n haeddu ein mawl i gyd!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Celfyn Williams fydd yn arwain, a bydd Aneurin a Rhodri yn adolygu'r gyfres a gafwyd ar yr arwyddion a geir yn Efengyl Ioan. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Noson o hyfforddiant ar gyfer pob athro/athrawes Ysgol Sul yn yr Ofalaeth** (*plant, ieuenctid ac oedolion*) yng Nghapel Henllan am 7.00 pryd y bydd Aneurin a Rhodri yn rhoi arweiniad i'r maes llafur sydd wedi ei osod ar gyfer 2012.
- Mercher • **Dod i Adnabod – Grŵp Rhodri** yn cyfarfod yn Llanefydd am 7.30.
• **Dod i Adnabod – Grŵp Aneurin** yn cyfarfod yn Groes am 7.30.
• Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
• **Cwrdd Chwarter yr Annibynwyr** yn cyfarfod am 7.00 yn Eglwys Crist, Abergele. Yn dilyn y materion ffurfiol, ceir anerchiad gan Lywydd y Cwrdd Chwarter, Mr Rhodri Eckley ac yna fe weinyddir y cymun gan y Parch. Ifor ap Gwilym.
- Gwener • **C.I.C. Ffactor** (Clwb Ieuenctid Cristnogol ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd) yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yng nghwmni y Parch. John Robinson yn Llansannan am 6.00. Aneurin fydd yn arwain yr oedfa a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa. Mwy o fanylion ar y cefn.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 ac Ysgol Sul am 11.00. Yng Nghefn Meiriadog, bydd gwasanaeth Sul y Beibl am 10.30 ac Ysgol Sul am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Iau Cinió'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Dewi Tudur yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Mr Steffan Morris yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Dewi Tudur yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau